

Paratoi ar gyfer Hyfforddiant gydag Athrofa Padarn Sant

Llongyfarchiadau ar gael eich noddi gan yr Esgob i hyfforddi ar gyfer y Weinidogaeth! Rydym yn falch iawn o rannu eich taith gyda chi dros y blynyddoedd nesaf. Y peth pwysicaf yw darllen y daflen Help! Rwyf wedi cael fy newis i gael hyfforddiant yn Athrofa Padarn Sant a rhoi dyddiadau yn eich dyddiadur ar gyfer y flwyddyn i ddod. Fodd bynnag, os hoffech chi wneud rhywfaint o baratoi a meddwl ymhellach, dyma rai awgrymiadau.

Darllenwch y Llawlyfr Ffurio ar gyfer Gweinidogaeth Drwyddedig

Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch yno, yn enwedig sut mae'r holl rannau o hyfforddiant yn gweithio a'r hyn a ddisgwylir gennych. Darllenwch ef yn ofalus.

Cysidrwch eich blaenoriaethau

Beth fydd angen i chi roi'r gorau iddi er mwyn rhyddhau'r amser y bydd angen i chi ei neilltuo i hyfforddiant?

Cymerwch gyfle i fyfrio a gweddïo

Mae'n hollol normal i deimlo'n bryderus ar gychwyn unrhyw beth newydd. Ond does ddim angen i chi bryderu ynglŷn â hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth. Mae'r tiwtoriaid â'r ymgesiwyd eraill yn gyfeillgar ac yn gefnogol. Rydyn yn grŵp cyffredin o bobl sydd yn mwynhau cmwni eu gilydd, hyd yn oed jôc neu ddau. Byddwch yn barod i wneud ffrindiau gydol oes.

Os hoffech wneud unrhyw ddarllen paratoadol cyn mis Medi, dyma rhai awgrymiadau. A bod yn onest, buaswn yn eich annog i dreulio'r amser cyn i chi ddechrau ar eich hyfforddiant, yn ymlacio a mwynhau bod gyda theulu a ffrindiau, ac i gysidro yn ofalus eich blaenoriaethau â beth sydd raid i chi, o bosib, roi o'r neilltu er mwyn gwneud y gorau o'r cyfnod hyfforddi hwn, yn ogystal â pharhau i roi amser i'r pobl pwysig yn eich bywyd.

Gweddi

Mae'r cyfnod hyn o hyfforddi yn gyfle i chi osod ymarfer da o weddi a fydd yn cynnal eich gweinidogaeth.

Buddsoddwch yn eich perthynas efo teulu â ffrindiau

Gall ddechrau ar gyfnod ffurfiant ar gyfer y weinidogaeth rhoi straen ar berthnasoedd ac mae newid bob amser yn faich ac yn straen. Gwnewch gymaint ag y gallwch i osgoi 'cyrraedd' Athrofa Padarn Sant o dan bwysau ac yn flinedig. Cofiwch y bydd eich teulu a ffrindiau agos yn addasu hefyd tuag at y syniad eich bod yn symud mewn i rôl weinidogaethol. Byddwch yn ofalgar drostynt!

Darllenwch y Beibl

Mae'n hanfodol eich bod yn dod i adnabod eich Beibl yn dda. Rydym yn awgrymu eich bod yn ceisio darllen yr holl Feibl yn drylwyr yn eich dwy flynedd gyntaf gyda ni. Beth am ddechrau nawr? Os ydych yn edrych am awgrymiadau, byddai darllen (neu ail-ddarllen) y pedwar llyfr hwn yn ddechrau da:

- Efengyl Marc
- Y Llythyr i'r Galatiaid
- Genesis
- Esea

Gellir darllen Efengyl Marc mewn noswaith, ac mae hynny'n wir am y Galatiaid. Bydd Genesis yn cymryd sawl noswaith i'w ddarllen (stopiwch ar ôl pennod 11 ar y noson gyntaf) bydd Esea yn cymryd tuag wythnos (gan fod seibiant naturiol yn dod ar ôl Pennod 39 a Phennod 55).

Byddwch angen darllen cyfieithiad diweddar o'r Beibl. Mae nifer o fersiynau ar gael mewn audiobook yn ogystal.

Awgrymiadau am lyfrau i'w darllen

Er mwyn eich ysbrydoli ynglŷn â'r Beibl, ceisiwch ddarllen llyfr mwyaf diweddar y Pennaeth: Jeremy Duff, *Peter's Preaching: The Message of Mark's Gospel* (BRF, 2015) neu Paula Gooder, *Phoebe* (Hodder and Stoughton, 2018). Neu yn y Gymraeg Dehongli Bywyd Iesu or Dehongli Bywyd Paul gan Elfed ap Nefydd Roberts (Cyhoeddiadau'r Gair).

I rhoi trosolwg am y 'pecyn' cyflawn o ffuriant ar gyfer y weinidogaeth ac addysg diwnyddol: Steven Croft and Roger Walton, *Learning for Ministry* (Church House Publishing, 2005)

Os nad ydych yn hyderus yn eich sgiliau academiaidd, llyfr da am sgiliau astudio ydy: Stella Cottrell, *The Study Skills Handbook* (3rd Edition, Palgrave Macmillan, 2008).

Cyngor

- Byddwn yn rhoi llawer o wybodaeth i chi. Nid oes posib i chi gofio popeth. Os ydy rhywbeth yn aneglur gofynnwch! Os ydy rhywbeth yn bwysig dros ben mi fyddwn yn parhau i'ch atgoffa amdano.
- Rhowch ddyddiadau allweddol yn eich dyddiadur.
- Byddwch wedi darganfod pwy yw eich tiwtor personol. Cymerwch y cyfle i ddod i'w nabod ac mae croeso i chi siarad efo nhw ynglŷn ag unrhyw beth sydd yn eich poeni, neu unrhyw beth sy'n aneglur.
- Os ydych yn teimlo'n ddihyder darllenwch ychydig am hunan amheuaeth: <https://redditblog.com/2015/11/25/impostor-syndrome-youre-not-the-only-one-who-feels-like-afraud/>
Mae'r teimladau hyn yn gyffredin iawn. Mae hyd yn oed tiwtoriaid yn teimlo fel hyn ar adegau, credwch ai beidio!
- Byddwch yn agored, yn chwilfrydig... gallwch ddysgu rhywbeth o bob profiad. Byddwch yn cyrraedd ag amrywiaeth o brofiadau, ac mi fydd llawer o ddysgu yn digwydd wrth i chi rhannu eich profiadau a'ch gwybodaeth gyda'ch gilydd, gymaint ag y byddwch yn dysgu mewn unrhyw ddsbarth o bosib.
- Ar yr un nodyn, paratowch eich hun i gael eich synnu! Rydych yn dechrau ar daith, a gyda Duw nid ydym bob amser yn gwybod i le bydd y daith yn ein harwain!

Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr iawn i rannu'r daith hon gyda chi.

Pob bendith,

Manon

Manon Ceridwen James (Parch Ddr)

